Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru

Newidiadau i'r rheolau ar gyfer cynghorau lleol a byrddau iechyd

Beth ydych chi'n feddwl



2026

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth: Cod Ymarfer.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Rydych chi'n gallu gofyn i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwefan: Fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth | LLYW.CYMRU

Ebost: ComisiynuCenedlaethol@llyw.cymru

Gwnaeth Hawdd ei Ddeall Cymru y ddogfen Hawdd ei Ddeall hon. Cliciwch yma i ddweud wrthym beth yw eich barn.

Cynnwys

Am y ddogfen yma 4

Am wasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru 6

Pam rydyn ni eisiau gwneud y newidiadau yma 9

Newidiadau i'r Cod Ymarfer 11

Mwy am y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth 28

7 gwerth 30

Beth sy'n digwydd nesaf 32

Am y ddogfen yma



Rydyn ni'n diweddaru'r **Cod Ymarfer** ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru.



Mae **Cod Ymarfer** fel set o reolau neu safonau i'w dilyn.



Mae newidiadau i'r rheolau ar gyfer cynghorau lleol a byrddau iechyd.



Mae'r ddogfen yma yn esbonio pa newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am y newidiadau yma.



Darllenwch y ddogfen yma. Yna atebwch y cwestiynau yn y ffurflen ymateb.



Anfonwch eich atebion i ni erbyn **1 Chwefror 2027.**

Am wasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru



Mae angen gofal a chefnogaeth ar lawer o bobl yng Nghymru.



Mae cynghorau lleol a byrddau iechyd yn aml yn darparu llawer o'r gwasanaethau gofal a chymorth.



Weithiau, maen nhw'n gofyn i sefydliadau eraill ddarparu gwasanaethau iddyn nhw.



Mae hyn yn cael ei alw yn **gomisiynu**.

Mae **comisiynu** yn meddwl:



- Darganfod pa ofal a chefnogaeth mae pobl ei angen.



- Penderfynu pa wasanaethau ddylai fod ar gael.



- Trefnu a thalu am y gwasanaethau.



- Edrych i weld bod y gwasanaethau'n gweithio'n dda.



Mae Cod Ymarfer yn helpu cynghorau a byrddau iechyd i wneud hyn yn dda.



Mae'r Cod Ymarfer wedi cael ei wneud yn 2024.



Rydyn ni nawr yn diweddaru'r Cod Ymarfer.

Pam rydyn ni eisiau gwneud y newidiadau yma



Rydyn ni eisiau i wasanaethau ddilyn ein polisïau a'n deddfau cyfredol.



Rydyn ni eisiau helpu sefydliadau i gynllunio a darparu gwasanaethau gofal a chymorth yn dda.



Rydyn ni eisiau cael mwy o wasanaethau i blant sy'n derbyn gofal. Rydyn ni eisiau cefnogi gwasanaethau sydd ddim yn gwneud elw.



Un o'r syniadau pwysicaf ydy rhoi pobl yn gyntaf.



Mae hyn yn meddwl am y person wrth wneud pob penderfyniad.



Fe ddylai sefydliadau weithio gyda:

- Y person.
- Eu teulu.
- Eu gofalwyr.
- Pobl eraill sy'n eu cefnogi.

Newidiadau i'r Cod Ymarfer

1. Fe ddylai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd yn fwy.



Mae angen iddyn nhw gynllunio gwasanaethau gyda'i gilydd a gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu rhedeg yn dda.



Fe ddylai hyn feddwl bod mwy o wasanaethau yn agosach at gartrefi pobl.

2. Fe ddylai'r Cod Ymarfer gael ei reoli gan y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth.



Fe fyddai ganddyn nhw fwy o rôl wrth edrych bod y Cod Ymarfer yn cael ei ddilyn.



Fe fydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei ddilyn.



Mae hefyd yn meddwl bod mwy o gefnogaeth i sefydliadau.

3. Fe fydd angen i gynghorau a byrddau iechyd ddangos sut maen nhw'n dilyn y Cod.



Fe fydd angen iddyn nhw adrodd i'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth.



Fe fydd hyn yn eu helpu i barhau i wella.

4. Cyllid teg a gwasanaethau sy'n para.



Fe ddylai sefydliadau feddwl am ansawdd a gwerth gwasanaethau. Nid yn unig cadw prisiau rhad.

Fe ddylen nhw:



Deall faint mae gofal da yn ei gostio mewn gwirionedd.



Talu prisiau teg am wasanaethau.



Gwneud yn siŵr bod gan wasanaethau ddigon o arian i barhau i redeg.



Dewis gwasanaethau sy'n helpu pobl i gyflawni beth sy'n bwysig iddyn nhw.



Meddwl am weithwyr, cymunedau, a'r amgylchedd.

5. Gweithio gyda'i gilydd gyda phobl.



Fe ddylai sefydliadau adeiladu perthnasoedd da a gweithio gyda'i gilydd.

Fe ddylen nhw:



Gwrando ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth.



Cynnwys pobl mewn gwasanaethau cynllunio.



Gweithio gyda sefydliadau eraill.



Gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd i gael canlyniadau gwell.

6. Gwell cefnogaeth i'r gweithlu.



Mae'r Cod Ymarfer nawr yn rhoi mwy o ffocws ar weithwyr gofal cymdeithasol.



Mae'n cydnabod pa mor bwysig ydy cael staff sydd â sgiliau a hyfforddiant.



Fe ddylai fod amodau gwaith teg a thâl teg.



Fe ddylai fod cyfleoedd i staff hyfforddi a datblygu eu sgiliau.

7. Gwasanaethau teg a chyfartal i bawb.



Fe ddylai sefydliadau wneud yn siŵr bod pawb yn gallu defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth.

Fe ddylen nhw:



Gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu defnyddio gwasanaeth gyda pha bynnag anghenion sydd ganddyn nhw.



Dod o hyd i wahaniaethau annheg a delio â nhw.



Gwrando ar bobl a'u cynnwys mewn penderfyniadau.



Parchu hawliau dynol pawb.

8. Cynllunio ar gyfer niwroamrywiaeth.



Mae niwroamrywiaeth yn meddwl bod ymennydd pobl yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol i'w gilydd.



Mae gan rai pobl wahaniaethau mwy ac maen nhw'n cael eu galw yn niwroamrywiol. Er enghraifft, awtistiaeth.



Rhaid i wasanaethau ateb anghenion pobl, pa bynnag anghenion sydd ganddyn nhw.



Fe ddylai fod yn hawdd i bobl gael mynediad at ofal a chymorth.



Mae angen i staff ddeall niwroamrywiaeth yn well.

9. Defnyddio mwy o Gymraeg.



Mae gan bobl yr hawl i dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg os ydyn nhw eisiau.



Fe ddylid cynnig gwasanaethau yn Gymraeg. Ddylen nhw ddim gorfod gofyn amdanyn nhw.



Mae angen i wasanaethau feddwl am y Gymraeg wrth gynllunio i ddarparu gofal a chymorth.



Fe ddylid trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg.

10. Newidiadau i wasanaethau plant.



Rhaid cynllunio'n well ar gyfer gwasanaethau plant.



Mae hyn yn meddwl mwy o gefnogaeth i helpu plant i aros yn agos at eu teuluoedd.



Rydyn ni angen mwy o wasanaethau lleol.



Ddylai gwasanaethau plant ddim gwneud elw.



Fe ddylai gwasanaethau ganolbwyntio ar gefnogi plant yn gynnar. Mae hyn yn helpu i stopio problemau rhag gwaethygu.



Fe ddylid amddiffyn plant ac oedolion pan fyddan nhw mewn perygl.

11. Canolbwyntio cryfach ar edrych ar ôl ein planed.



Mae angen i sefydliadau feddwl am yr amgylchedd.



Mae angen iddyn nhw ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o weithio.



Mae angen iddyn nhw ddilyn rheolau Llywodraeth Cymru am newid yn yr hinsawdd.



Mae angen iddyn nhw feddwl am y dyfodol.

12. Defnyddio gwybodaeth yn dda.



Mae hyn yn meddwl gweithio gyda'i gilydd gyda phobl sydd â phrofiad o broblem. Er enghraifft, pobl ag anableddau dysgu.



Fe ddylen nhw ddefnyddio'r profiadau a'r ymchwil yma i wella gwasanaethau.



Fe ddylai gwasanaethau hefyd wrando ar ofalwyr a'u cefnogi.

Mwy am y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth


Fe fydd y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth yn:



- Helpu sefydliadau i ddilyn y Cod Ymarfer wedi'i ddiweddaru.



- Helpu sefydliadau i weithio mewn ffyrdd tebyg ar draws Cymru.



- Helpu sefydliadau i wella eu gwasanaethau.



- Rhoi cyngor a chefnogaeth.

Rhaid i sefydliadau:



- Gwneud cynllun i wella.



- Anfon y cynllun i'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn.

7 gwerth

Mae'r Cod Ymarfer wedi'i ddiweddaru yn seiliedig ar 7 gwerth. Dyma nhw:



1. Perthnasoedd cryf – parchwch eich gilydd.



2. Fe ddylai arweinwyr fod yn agored am beth maen nhw'n ei wneud.



3. Gweithio gyda'n gilydd.



4. Meddwl am beth sy'n bwysig i bobl.



5. Talu staff yn deg a chael amodau gwaith da.



6. Meddwl am y dyfodol.



7. Dysgu o brofiadau – mae hyn yn meddwl gwneud ymchwil a gwrando ar bobl.



Mae'r Cod hefyd yn dweud y dylai gwasanaethau fod yn deg ac yn hawdd i'w defnyddio gan unrhyw un. Ddylai neb gael eu gadael allan.

Beth sy'n digwydd nesaf



Anfonwch eich atebion i ni erbyn **1 Chwefror 2027**.



Fe fyddwn ni'n edrych ar yr holl atebion fyddwn ni'n eu cael.



Fe fyddwn ni'n edrych ar sut fyddai'r newidiadau yn gallu effeithio ar bobl.

Fe fyddwn ni wedyn yn rhannu:



- Crynodeb o'r atebion rydyn ni'n eu cael.



- A'n hymateb iddo.



Fe fyddwn ni'n rhannu hyn ar ôl i ni edrych ar yr holl wybodaeth.

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247